Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.08.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cronfa Cadernid Economaidd (ERF): Cymorth Gorffennaf/Awst i fusnesau sydd â throsiant o dan £85k

Mae ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Cadernid Economaidd, gan fusnesau sydd â throsiant cyn COVID o dan £85,000, ar agor tan 5:00pm, 9 Awst 2021. Gall busnesau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod Gorffennaf ac Awst 2021, wneud cais am gymorth ariannol i gwrdd â'u costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff). Peidiwch ag oedi gwneud cais – i gael mwy o wybodaeth, ac i wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Cronfa-Cadernid-Economaidd.aspx

# COVID-19: Brechu

Cynhelir clinigau brechu yr wythnos yma yng Nghaernarfon, Bangor a Phorthmadog.

- CAERNARFON
  Canolfan Nodda, LL55 2RS: Dydd Mercher, 4 Awst 2021 10:00am-2:00pm
  Sesiwn brechu Pfizer ar agor i bawb sy'n 17 oed a 9 mis hyd at 39 oed i gael eu dos cyntaf neu ail ddos o'r brechlyn – dim angen apwyntiad.

- BANGOR
  Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen, LL57 1LS: Dydd Mercher, 4 Awst 2021 10:00am-2:00pm
  Sesiwn brechu Pfizer ar agor i bawb sy'n 17 oed a 9 mis hyd at 39 oed i gael eu dos cyntaf neu ail ddos o'r brechlyn – dim angen apwyntiad.

- PORTHMADOG
  Ysbyty Alltwen, LL49 9AQ: 8 Awst 2021 8:30am-6:00pm
  Sesiwn brechu Pfizer – dim angen apwyntiad.

- CAERNARFON
  Canolfan Denis Arfon, Caernarfon. LL55 1DU: 8 Awst 2021 8:30am-3:00pm
  Sesiwn brechu AstraZeneca i bobl 40+ – gwnewch apwyntiad trwy fynd i: https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/brechiad-covid-19-trefnu-apwyntiad-ar-lein/

# NEWYDDION: Safle Treftadaeth y Byd newydd yng Ngwynedd

Mae tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru wedi'i hychwanegu at Restr Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, sy'n golygu mai dyma'r pedwerydd Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, a'r ail yng Ngwynedd. I ddarllen datganiad Cyngor Gwynedd am y newyddion yma, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd28Gorff2021

- Gair i gall: Mae UNESCO yn warchodol iawn o ddefnydd eu henw/logo – ni ddylid eu defnyddio ar ddeunyddiau masnachol.

## RHEOLIADAU: Newidiadau gofynion labelu alergenau

Ar 1 Hydref 2021, bydd y gyfraith o ran labelu alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) yn newid. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi lansio Hwb PPDS sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, ewch i:

https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-ar-gyfer-busnesau/newidiadau-ppds

Bydd yr ASB hefyd yn cynnal gweminar ar gyfer busnesau bwyd ar 4 Awst 2021 am 2:00pm. I ymuno â'r weminar yma, ewch i:

https://ppdsbusiness.fsaevents.co.uk/home

## LLES: RCS – Lles ar gyfer gweithio | Meithrin Cadernid

Mae RCS yn cynnig gwasanaeth cwnsela wedi'i ariannu'n llwyr i helpu unigolion i ymdopi â straen neu berfformio'n fwy effeithiol yn y gwaith, yn ogystal â chynnig nifer o weminarau gyda hyrwyddwyr lles. Ceir mwy o wybodaeth yn eu newyddlen diweddaraf, ewch i:

https://bit.ly/NewyddlenRCS

## ADNODDAU: Pecyn cymorth Llwybr Arfordir Cymru

Adnodd ar-lein am ddim ar gyfer helpu busnesau ddarparu gwybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru i'w cwsmeriaid. I gael mynediad i'r pecyn cymorth hwn, ewch i:

https://bit.ly/LlACPecynCymorth

# BREXIT: Diweddariadau canllawiau ar gyfer y sector drafnidiaeth

- Gwasanaethau a theithiau bws neu goets rhyngwladol – dogfennau cerbyd: https://bit.ly/3rSn5XP

- Ymgymeryd â chludiant ffyrdd rhyngwladol: https://bit.ly/3A51HBQ

- Cludiant ffyrdd rhyngwladol: Dogfennau cerbyd nwyddau trwm (HGV) a threlar:
https://bit.ly/3xq4OlP

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru